

Stori Linda

Wrth edrych yn ôl ar yr 8 mlynedd o fod yn Ofalwr Seibiant Byr heddiw, yr hyn a wnaeth beri'r mwyaf o embaras i mi oedd y ganmoliaeth roeddwn i'n ei derbyn gan fy ngŵr (fy nghefnogwr mwyaf), fy nheulu a'm ffrindiau, rhieni'r plant roeddwn i'n eu cefnogi, gweithwyr proffesiynol, cyd-ofalwyr ac yn y blaen. Mae'n hyfryd clywed bod pobl yn gwerthfawrogi/edmygu'r gwaith rwy'n ei wneud.



Linda...

Mae rhai'n fy ngalw i'n berson arbennig ac mae rhai wedi sôn am ofalwr therapiwtig ond i mi, mae'n peri embaras!! Mae ysgrifennu am y profiadau yn fwy anodd byth! Rwyf bob amser yn atgoffa fy nghydweithwyr y byddaf i yn dweud 'ie' i unrhyw beth oherwydd dyna yw fy natur. Mae'n rhaid i mi ddysgu dweud na! Y paragraff cyntaf oedd yr un anoddaf i'w ysgrifennu ond roeddwn i am ddangos y parch rwyf wedi ei ennill o fod yn Ofalwr Seibiant Byr.

Am wn i, os na fyddwn i'n derbyn y sylwadau hyn yna mae'n siwr y byddwn i'n credu nad oeddwn i'n gwneud fy ngwaith yn ddigon da. O ran hynny felly, rwy'n ddiolchgar ac yn gwerthfawrogi pob un ohonynt. A minnau'n fam i 4 o blant ac yn fam-gu i 7 o blant, rwy'n tybio fy mod i wedi cael digon o ymarfer yn gofalu am blant ond nid plant sydd ag anghenion ychwanegol, hyd yn ddiweddar. Mae fy wŷr, Harrison, wedi cael diagnosis o Awtistiaeth yn y flwyddyn ddiwethaf. Dechreuodd fy rôl 8 mlynedd yn ôl pan oedd fy merch eisiau gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol. Sylwodd fy ngŵr ar hysbyseb yn y Llanelli Star am wirfoddolwyr i ddarparu seibiant er mwyn cynorthwyo teuluoedd. Roedd chwant cynnig help llaw arnaf i, felly daeth Kay a minnau'n ofalwyr Seibiant Byr. Gwnaethom fynychu hyfforddiant a chael gwiriadau cefndir gan yr Heddlu a daethom yn ofalwyr cymeradwy ym mis Mehefin 2006.

Gydag amser, symudodd Kay yn ôl i Gasnewydd, De Cymru a gwnes i barhau yn ofalwr senl. Ym mis Ebrill y llynedd, daethom yn rhan o Gyngor Sir Caerfyrddin a bellach rwy'n gweithio i'r Gwasanaeth Seibiant Byr. I roi ychydig bach mwy o wybodaeth am y plant rwy'n eu cefnogi...I'm helpu i gyfarwyddo â'r gwaith, roedd fy mhlentyn cyntaf yn gofalu am ei riant. Roedd y seibiant yn rhoi cyfle i'r plentyn wneud y pethau cyffredin y byddai plentyn o'r oed yna yn ei wneud. Wrth i amser symud ymlaen ac wrth i'r hyfforddiant barhau, dechreuais ofalu am blant ag Awtistiaeth, Anhwylder Gorfywiogrwydd a Diffyg Canolbwyntio (ADHD), Parlys Cerebrol a Syndrom Down.

Bellach, rwy'n gofalu'n hyderus am blant sydd ag anabledau mwy cymhleth sy'n cynnwys nam amlsynhwyraidd, anhwylder obsesiynol cymhellol a materion ymwybyddiaeth ofodol, anghenion deietegol, problemau adliffiad asid a mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol y plentyn ac, mewn rhai achosion, y rhieni. Er mwyn fy ngalluogi i ofalu am blentyn yn fwy effeithiol, rwy'n gofyn am gymorth gan y gweithwyr proffesiynol!

Rwyf wedi cael cefnogaeth arbennig gan fy Nhîm (Gwasanaeth Seibiant Byr), Arbenigwyr Lleferydd ac Iaith, Therapyddion Galwedigaethol, Athrawon, Ffisiotherapyddion, Deietegwyr, Gweithwyr Cymdeithasol, Swyddogion Lles ac ati. Rwy'n mynychu Adolygiadau Blynyddol mewn

Ysgolion, Cyfarfodydd gyda Meddygon Teulu, Cyfarfodydd Plant mewn Angen ac unrhyw gyfarfodydd rwy'n gallu mynd iddynt a fydd yn fy ngalluogi i helpu'r plentyn. Mewn ymweliad arferol gallai plentyn gyrraedd ar fws ysgol. Rwy'n asesu'r plentyn o ran ei angen cyntaf megis diod, newid cewyn, newid dillad, chwant bwyta ac yn symud ymlaen o hynny. Mae'r rhieni yn cyrraedd â'r brawd neu'r chwaer arall sy'n rhoi cyfle i mi wirio unrhyw faterion megis newid meddyginiaeth, y diweddaraf ynghylch beth mae'r plentyn wedi ei fwyta ac ati. Ar ôl i'r rhieni adael a phan mae'r plant yn gyfforddus ac wedi ymlacio, dyna pryd mae'r hwyl yn dechrau. Os yw hi'n ddiwrnod braf, mae'n bosibl y byddwn ni'n rhoi blanced allan ar y gwair a chasglu ychydig o deganau y mae'r plentyn yn hoffi chwarae â nhw.

Ar yr un pryd, mae'n rhaid sicrhau bod anghenion y brawd neu'r chwaer hefyd yn cael eu diwallu ac mae anghenion y ddau blentyn yn gallu bod yn wahanol iawn i'w gilydd, megis eisiau sboncio ar y trampolîn, hwyl yn y pwll tywod neu ymlacio wrth wyllo Peppa Pinc. Ar ôl te, mae'n amser bath i'r plant ac yna'n amser am eu hoff stori cyn mynd i'r gwely. Ar ôl i un plentyn fynd i gysgu, mae angen rhoi meddyginiaeth i'r plentyn arall ac yna swper ac wedyn mae'n amser gwely. Mae'n amser i mi glirio a golchi dillad y plant cyn eistedd i lawr i ddechrau cofnodi ac yna gwely cynnar i mi! Rwy'n codi'n gynnar y diwrnod wedyn, cyn i'r plant godi ac yn paratoi fy hun yna'n diuno'r plant er mwyn rhoi brechwast iddynt, eu golchi a brwsio'u dannedd a'u gwisgo'n barod ar gyfer yr ysgol. Ar ôl iddynt adael, mae'n amser clirio ac efallai newid y gwelyau ar gyfer plentyn arall sy'n cyrraedd am 3.15pm. Adegau cofiadwy.

Nifer o atgofion dro ar ôl tro. Sefyll wrth gât yn gwyllo anifeiliaid yn pori mewn cae, sefyll ar bont yn aros i drên fynd oddi tanom, edrych ar blentyn yn rhedeg tuag ataf i gael cwtsh, plentyn yn canu alaw yn ôl imi, gwyllo ymateb plentyn nad yw'n cyfathrebu yn y ffyrdd arferol ond sy'n rhoi ei dafod allan i ymateb i'm hymdrechion, gwyllo plentyn yn dysgu sut mae gwneud pos blociau ac yn gofyn am ganmoliaeth yn ei ffordd fach ei hun drwy glapio ei ddwylo, gwyllo plentyn sy'n simsan iawn ar ei draed yn dysgu sut mae cerdded gyda'i ysgwyddau, ei freichiau a'i ddwylo dan reolaeth, tynnu llun cofiadwy o blentyn neu recordio fideo cofiadwy er mwyn gweld y cynnydd mae'r plentyn yn ei wneud....gallwn sôn am ragor...rwyf wedi dysgu cymaint gan y plant hyn a chan fy rôl fel Gofalwr Seibiant Byr.

Linda